Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll

Cofnodion Cyfarfod 30 Mehefin 2017

Presennol: A. Mummery, (Cadeirydd), J. Roberts, A. Jones, A. Williams, S. Edwards, G. Parry, E. Parry, G. C. Jones, D. Jones

Dafydd Owen (clerc)

		Gweithred	Dyddiad
1.0	**Ymddiheuriadau**:		
	Mervyn Jones, H. Huws, Meirion Jones,		
2.0	**Datganiadau Diddordeb**.		
	Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau diddordeb		
3.0	**Cyfrifon Mis Mehefin 2017**		
3.1	A. Mummery yn cyflwyno siec o £25 wedi derbyn gan glwb Pêl Droed Iau am ddefnydd y Mae Aml Bwrpas		
3.2	E. Parry yn cynnig, J Roberts yn eilio, derbyniwyd fel y rhai cywir		
4.0	**Cynrychiolwyr Pwyllgorau Allanol**		
4.1	G. C. Jones wedi mynychu Fforwm Cyswllt Cynghorau Thref a Chymuned. Nodwyd bod siom gyda dogfen ymgynghoriad PAC3 Horizon yn hwyr yn dod allan a dyddiad cau'r ymgynghoriad yn dun. Cyngor Sir wedi paratoi ymateb a phwyntiau sydd yn ddefnyddiol i liwio ymateb Cynghorau Tref a Chymuned. Nodwyd bod diffyg manylder yn y ddogfen, a dim manylder ar effaith ar yr iaith Gymraeg, nac ar drigolion gogledd yr Ynys. Hefyd bod siom ei fod heb gyrraedd y Cyngor Bro tan 27 Mehefin.		
4.2	G. C. Jones yn nodi bod angen gwneud ymholiadau a diffiniad swydd y Pencampwr Iaith.		
4.3	A. Mummery yn nodi bod Cais Cynllunio Hen Lon Dyfnia wedi cael ei alw i mewn		
4.4	A. Mummery yn nodi bod angen penodi aelod ar ran Llanfairpwll a Phenmynydd a Star i Lywodraethwyr yr Ysgol		
5.0	**Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod Blynyddol 30 Mai 2017**		
5.1	J. Roberts yn cynnig, G. Parry yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir		
6.0	**Materion yn codi o'r cofnodion**		
6.1	J. Roberts yn cynnig, A. Williams yn eilio i ru llythyr at Dennis Williams yn gofyn a oes bwriad ail aelodi gyda'r Cyngor Bro	**D. Owen**	**25/07/17**
6.2	Twr Marcwis - Dim diweddariad pellach ar hyn o bryd	**A. M**	
6.3	Llwybr beicio - Swyddog Priffyrdd y Cyngor Sir yn nodi fod wedi disgwyl i'r flwyddyn ariannol newydd ddod cyn parhau a'r gwaith. Disgwylir iddo gael ei gwblhau cyn gynted â phosib.	**D. Owen**	**25/07/17**
6.4	Grant memorials fund am waith ar y cloc - Cytunwyd i DEWIS am gyngor ar wasanaeth o baratoi adroddiad a dogfen manyleb ar gyfer gwaith ar y cloc i liwio cais am grant.	**D. Owen**	**25/07/17**
6.5	Tagfeydd traffic Ffordd Caergybi/Ffordd Penmynydd - Clerc i ddilyn fyny hefo Cyngor Sir am ffordd Penmynydd/Caergybi. Cytunwyd i'r Clerc yrru cwyn at yr Heddlu am geir yn gyrru ar ffordd Penmynydd	**D. Owen**	**25/07/17**
6.6	Gwelliannau Pentrefol - A. Maer yn nodi ei fod heb gal llawer o lwyddiant gyda chael gwybodaeth gan grŵp Llangefni. Nodwyd ei fod am drio cael gwybodaeth gan grŵp Amlwch	**A. Mummery**	**25/07/17**
6.7	Pryderon Parcio gyda chyfarfodydd Slimming World yn y Pentref - G. Parry yn nodi fod y sefyllfa wedi gwella ond bod angen cadw llygaid yno.	**G. Parry**	**25/07/17**
6.8	Grant Horizon - Dim diweddariad ar gais grant Horizon. A. Jones yn parhau i weithredu ar gais grant loteri ar gyfer laptops i'r Neuadd Goffa.	**A. Jones**	**25/07/17**
6.9	Llanast yn y Gors - Steve wedi cael pris o £35 y bin i roi yn y Gors. Clerc i ddilyn fyny hefo Biffa am bris am wasanaeth clirio sbwriel yn rheolaidd	**D. Owen**	**25/07/17**
6.10	Fynwent - Clerc i yrru copi o'r cytundeb bori ymlaen i'r Cynghorwyr ac i roi cwyn i'r	**D. Owen**	**25/07/17**

	Cyngor Sir am y deilydd am y golwg mae'n ei wneud ar y safle.		
7.0	**Cyflwyno a chadarnhau Cofnodion Pwyllgor Amgylchedd ac Eiddo 06 Mehefin 2017**		
7.1	A. Jones yn cynnig, G. Parry yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir		
8.0	**Materion yn Codi o'r cofnodion**		
8.1	Giât ym Maes Chwarae - Nodwyd bod Andre i ffwrdd ond ei fod am weithredu pan fydd yn ôl.		
8.2	Meinciau'r pentref - A. Jones yn nodi bod angen gwaith i lot ohonynt. Cytunwyd i ofyn i Andre Le Cras cael golwg a rhoi sylwadau		
9.0	**Cyflwyno a chadarnhau Cofnodion Pwyllgor Neuadd Goffa 20 Mehefin 2017**		
9.1	A. Mummery yn cynnig, G. Parry yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir		
10.0	**Materion yn codi o'r cofnodion**		
10.1	Swydd Gofalwr - A. Williams yn cynnig, J. Roberts yn eilio i gynnig y swydd i Anwen Le Cras am £150 y mis. Cytunwyd i gadw'r hen swydd ddisgrifiad oedd yn briodol ar gyfer Hwfa Roberts pan fu o yn ofalwr ar y Neuadd Goffa.		
10.2	Clwb Snwcer - Nodwyd bod angen i'r clerc drefnu gyfarfod gyda'r Clwb Snwcer	**D. Owen**	
11.0	**Cyflwyno a chadarnhau Cofnodion Pwyllgor Meysydd Chwarae 20 Mehefin 2017**		
11.1	A. Williams yn cynnig, A. Jones yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir		
12.0	**Materion yn codi o'r cofnodion**		
12.1	Maes amlbwrpas - A. Williams yn cynnig bod y Cyngor Bro yn edrych i sefydlu maes 3G yn y Gors. A. Williams am edrych am grantiau am sefydlu maes chwarae plant bach, ac am roi diweddariad	**A. Williams**	
12.2	Gofalwr pentrefol - Clerc i wneud ymholiadau gyda Chynghorau Thref yr Ynys am syniad o gost o gael gofalwr llawn amser.	**D. Owen**	**25/07/17**
13.0	**Croesawu Eisteddfod - Syniadau a threfniadau i harddu'r pentref**		
13.1	S. Edwards yn disgwyl syniadau gan Adran Priffyrdd y Cyngor Sir. Steve wedi dylunio ac amcan pris o ryw £300 am faneri. Cytunwyd yn unfrydol i Steve archebu pedwar.	**S. Edwards**	**25/07/17**
14.0	**Ni dderbyniwyd unrhyw Geisiadau Cynllunio**		
15.0	**Gohebiaeth**		
15.1	Grid Cenedlaethol - Ymgynghoriad am newidiadau i lwybrau traffig adeiladu ar gyfer cysylltiad Grid Cenedlaethol a Wylfa - Nodwyd nid yw pont Rhonwy yn addas ar gyfer traffig trwm ac argymell bod angen gwelliannau i'r ffordd cyn ei fydd yn dderbyniol.		
15.2	Unllais - Rhybudd o gyfarfod - G. C. Jones yn mynychu. Nodwyd nid yw'n derbyn rhybudd cyfarfodydd na chofnodion ac mai i'r clercod mae'r rhain yn cael eu gyrru. Clerc i yrru ymlaen iddo a H. Huws fel y mae'n ei derbyn.		
15.3	Llythyr Cyngor Sir - Pwyllgor Safonau (Cynrychiolwyr Cynghorau Tref a Chymuned ar y Pwyllgor - Cytunwyd i'w rhoi ar Raglen Cyfarfod Gorffennaf		
16.0	**Materion Brys**		
16.1	J. Roberts yn nodi bod y cod ymddygiad wedi gyrru ymlaen yn Saesneg ond dim yn Gymraeg. Clerc i yrru copi Cymraeg ymlaen i'r aelodau	**D. Owen**	
16.2	J. Roberts yn nodi bod mwsogl yn tyfu ar lawr y gors ym mhob man. A. Williams am holi Playdale am unrhyw syniadau i gael gwared ohono yn barhaol.	**A. Williams**	

Dyddiad Cyfarfod Nesaf - Nos Fawrth 25 Gorffennaf 2017 am 7.00yh yn y Neuadd Goffa

Arwyddwyd…… (Cadeirydd) …… Dyddiad